**Dinas a Sir Abertawe**

## Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Datblygu Polisi Pobl

**O bell drwy Microsoft Teams**

**Dydd Mercher, 27 Hydref 2021 am 4.00 pm**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd C R Evans (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| S J Gallagher | P R Hood-Williams | M Jones |
| E T Kirchner | H Lawson | L V Walton |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Simon Jones | Arweinydd Strategol y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant, Gwasanaethau Cymdeithasol |
| Allison Lowe | Swyddog y Gwasanaethau Democrataidd |
| Lisa Thomas | Uwch-gyfreithiwr |

**Hefyd yn bresennol:**
Julia Manser, Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Abertawe (CGGA)

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wyr): J P Curtice

---

**21 Derbyn datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.**

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, ni ddatganwyd unrhyw gysylltiadau.

**22 Cofnodion:**

**Penderfynwyd** cymeradwyo a llofnodi cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Datblygu Polisi Pobl a gynhaliwyd ar 22 Medi 2021 fel cofnod cywir.

**23 Diweddariad ar y Cynllun Hawliau Plant a Phobl Ifanc. (Diweddariad Llafar)**

Gohiriwyd yr eitem i'r cyfarfod nesaf oherwydd salwch.

**24 Datblygu Strategaeth Wirfoddoli Cyngor Abertawe. (Diweddariad Llafar)**

Esboniodd y Cadeirydd fod gweithdy wedi cael ei gynnal cyn y Pwyllgor heddiw.

Yn absenoldeb Pennaeth Dros Dro y Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion, darparodd Julia Manser, Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Abertawe ddiweddariad ar lafar fel a ganlyn:

- Roedd Amy Hawkins wedi cyflwyno'r gweithdy ac roedd James Mullin, Swyddog Datblygu Trechu Tlodi wedi darparu gwybodaeth a oedd yn ymwneud ag arfer gorau;
- Roedd Strategaethau Gwirfoddoli wedi'u sefydlu'n llwyddiannus mewn Awdurdodau Lleol eraill gan gynnwys Sir Fynwy;
- Roedd llawer o swyddogion ar draws yr Awdurdod yn gyfrifol am reoli gwirfoddolwyr fel y rheini mewn Addysg, Diwylliant, Canolfan Ddydd St John's, Llyfrgelloedd, etc;
- Byddai cronfa ddata yn dod â'r holl wybodaeth ynghyd mewn un lle;
- Byddai'r Strategaeth yn darparu canllawiau cyson a oedd, hyd yma, wedi'u darparu ar sail ad-hoc;
- Byddai gweithgor yn cael ei sefydlu i lywio'r Strategaeth.

Roedd sylwadau ychwanegol gan y pwyllgor yn cynnwys:

- Dylai'r broses gael ei rheoli'n ofalus;
- Roedd angen sicrhau bod 'gwerth' ar gyfer y gwirfoddolwyr yn ogystal â'r Awdurdod;
- Cydnabod bod sbectrwm eang o wirfoddolwyr ffurfiol ac anffurfiol yn ogystal â'r rheini a oedd wedi gwirfoddoli ar sail tymor hir;
- Gallai gwirfoddolwyr ddefnyddio cofnodion hyfforddi i gael gwaith yn y dyfodol;
- Mater diogelu ac yn bwysig i'r rheini sy'n gwirfoddoli gyda phobl ddiamddiffyn/plant;
- Cyfranogaeth y gymuned/cyngor tref/cymdeithas preswylwyr?

Diolchodd y Cadeirydd i Julia Manser am y diweddariad a gofynnodd, os oedd gan unrhyw Gynghorydd ddiddordeb mewn mynd i'r Gweithgor, ei fod yn hysbysu naill ai Julia Manser neu James Mullin.

## 25 Strategaeth Gofalwyr Ifanc. (Diweddariad Llafar)

Rhoddodd y Cadeirydd ddiweddariad ar ran Gavin Evans, Prif Swyddog Cymorth Cynnar, Partneriaeth a Phobl Ifanc:

Cynhaliwyd cyfarfod arall o'r Fforwm Gofalwyr Ifanc i drafod sut y gallent gynorthwyo gyda'r Strategaeth Gofalwyr Ifanc.

O ganlyniad, roeddent wedi gwneud cais am gyllid y byddent yn ei ddefnyddio ar gyfer penwythnos preswyl cyn y Nadolig.  Yna byddent yn ymgynghori â Gofalwyr Ifanc eraill ac o bosib yn defnyddio Diwrnod Gofalwyr Ifanc tua diwedd Ionawr 2022 fel y diwrnod lansio.

Byddai'r Cadeirydd yn cysylltu â'r Prif Swyddog Cymorth Cynnar, Partneriaeth a Phobl Ifanc ynghylch aelod o'r Pwyllgor hefyd yn cymryd rhan yn Niwrnod Gofalwyr Ifanc.

## 26 Cynllun Gwaith 2021-2022.

Cyflwynodd y Cadeirydd y Cynllun Gwaith ar gyfer 2021-2022.

**Penderfynwyd** nodi'r Cynllun Gwaith yn amodol ar ychwanegu'r canlynol:

24 Tachwedd 2021

- Cynllun Hawliau Plant a Phobl Ifanc;
- Strategaeth Gwirfoddoli Cyngor Abertawe (Diweddariad);
- Strategaeth Gofalwyr Ifanc (Diweddariad).

Daeth y cyfarfod I ben am 4.26 pm

**Cadeirydd**